

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



**Cynhadledd Ffermio
Cymru 2019**

Mentro
Dyfodol disglair i bâr o
ffermwyr o Geredigion



**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
**European Agricultural Fund for
Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

RHIFYN 20 - Mawrth/Ebrill 2019 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio

'GLASWELLT YN RHOI MANTAIS O RAN COST I FFERMWYR CYMRU'

- Lloyd a Daphne Holterman



Daphne Holterman

Yn ystod ein hymweliad â Chymru ar gyfer [Cynhadledd Ffermio Cyswllt Ffermio 2019](#), gwnaeth yr amrywiaeth o systemau godro argraff fawr arnom.

Mae gan Gymru batrymau lloea trwy'r flwyddyn ac mewn blociau, amrywiaeth o systemau o ran siediau a gwahanol strategaethau porthi; mae'n dangos hyblygrwydd y fuwch a sut y gall fod yn broffidiol ym mhob sefyllfa.

Gwnaeth y glaswellt y mae ffermwyr Cymru yn gallu ei dyfu argraff arnom; mae'r hinsawdd yn cynnig ei hun i hynny ac mae'n rhoi mantais fawr i ffermwyr Cymru o ran costau. Yn Wisconsin, mae'r buchesi yn gallu pori am bedwar neu bum mis o'r flwyddyn ac wedyn rydym yn cael eira.

Mae diwydiant llaeth Cymru mewn sefyllfa gystadleuol iawn oherwydd bod ganddo farchnad hylifol gref - mae hynny'n fantais fawr.

Er mwyn manteisio ar y fantais gystadleuol honno, rydym wedi sylwi bod y ffermydd yr ydym ni wedi ymweld â nhw yn gwella eu systemau rheoli ac yn dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon trwy ddefnyddio technoleg fel genomeg a chofnodi llaeth yn barhaus; dylai hynny fod yn nod i bob fferm yng Nghymru. Peidiwch ag aros yn eich hunfan trwy ddathlu eich llwyddiant yn y gorffennol am yn rhy hir.

Mae'r diwydiant llaeth wedi dod yn gyfarwydd ag anwadalwch. Yn y blynyddoedd da, rhaid i ffermwyr ofalu am eu helw a symud peth ohono ymlaen fel bod arian wrth gefn pan na fydd pethau cystal.

Rhaid i bob busnes esblygu i gadw'n berthnasol a chystadleuol, boed hynny trwy arallgyfeirio i gynyddu incwm neu trwy beidio â gwneud rhywbeth nad yw'n gweithio bellach.

Mae pobl yr un mor bwysig ag anifeiliaid ar ffermydd, ac wrth i fusnesau dyfu, bydd rôl pobl yn dod yn fwy allweddol eto. Hyfforddwch y bobl hynny yn dda a bydd y busnes cyfan yn cael budd.

O ran y staff nad ydynt yn hoffi eich buchod, eich system na chi, fe ddylent adael a chwilio am swydd y maent yn ei hoffi yn well!



Lloyd Holterman

Rhagweld cyfleoedd cyffrous i amaethyddiaeth Cymru

Rhaid i ffermwyr Cymru beidio ofni'r sialensiau sydd o'u blaenau gan fod y rhai sy'n cystadlu yn eu herbyn trwy'r byd yn wynebu rhwystrau mwy, awgrymodd yr ymgynghorydd bwyd-amaeth Dr Jonathan Birnie.

Bydd effeithiau sychder, plâu, afiechyd a cholli pridd ar gynnyrch o amaethyddiaeth yn cael llai o effaith yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r byd, mae Dr Birnie yn rhagweld.

Er enghraifft, roedd prinder dŵr wedi gwthio costau dyfrhau ar ffermydd mewn rhai rhannau o'r UDA i fyny i \$260/hectar o \$16. Mewn gwrthgyferbyniad, mae gallu Cymru i dyfu glaswellt a grawn yn sylweddol, dywedodd wrth gynrychiolwyr yng Nghynhadledd Ffermio Cymru 2019 Cyswllt Ffermio.

“Gall yr allbwn a'r cynhyrchiant yng Nghymru gynyddu, ac mae gennym 70 miliwn o ddefnyddwyr yn eistedd wrth ein hymyl.”

Cred bod cyfleoedd cyffrous yn wynebu amaethyddiaeth yng Nghymru wrth i'r galw gan boblogaeth gynyddol y byd gynyddu.

Erbyn 2050, bydd poblogaeth y byd yn 9.2 biliwn. “Mae ar bobl angen mwy o fwyd ac mae hynny'n newyddion da i ffermwyr.

“Mae rhesymau sylweddol dros fod yn obeithiol; mae tuedd y farchnad yn edrych yn dda, ond chi ddylai fanteisio ar y cyfleoedd hynny.”

Gall Brexit amharu ar bethau yn y cyfnod byr, ond bydd y farchnad yn dod o hyd i'w chyd-bwysedd eto, dywedodd.



Mae cyfleoedd am farchnadoedd da y tu allan i Ewrop - petai pob unigolyn yn China yn bwyta 1kg yn fwy o gig bob blwyddyn, byddai hynny'n cymryd yr holl gig coch a dofednod a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig.

“Mae llawer iawn o botensial os gwnewch chi chwilio amdano. Mae galw mawr am gynhyrchion cig yn fyd-eang, dim ar y pris cywir eto o angenrheidrwydd, ond mae ar y ffordd.”

Awgrymodd y dylai ffermwyr ganolbwytio ar eu helw yn hytrach na phrisiau wrth giât y fferm. I ffermwyr bïff, gallai hynny olygu gorffen gwartheg yn 20 mis yn hytrach na 28 mis, gan gael gwared o naw mis o gostau o'u systemau.

Dywedodd wrth y ffermwyr am ddal i ddysgu. Y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliodd Cyswllt Ffermio 1200 o ddiwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth a dilynodd 6500 o ffermwyr hyfforddiant trwy Cyswllt Ffermio. “Dengys ymchwil bod incwm cyfartalog ffermwyr sy'n dilyn datblygiad proffesiynol parhaus 12% yn uwch na'r rhai nad ydynt,” dywedodd.





Cysylltiad rhwng Mynegai Oes Broffidiol Genomig (g£PLI) a ffenoteip

Yn ddiweddar rhoddwyd asesiad llinellol i'r 15 llo cyntaf a aned yn 2016 ac y rhoddwyd genoteip iddynt gan ddsbarthwr Holstein UK i werthuso eu ffenoteip cydffurfiad fel heffrod llaethog mewn cymhariaeth â'r Mynegai oes Broffidiol Genomig gwreiddiol (Gorffennaf 2016). Mae asesiad llinellol yn ddull mesur annibynnol a gwrthrychol o 22 o nodweddion unigol yr anifail sy'n cynnal pedair elfen allweddol o'r fuwch: **cydffurfiad y corff, cryfder llaeth, coesau a thraed a'r pwrs/cader.**


Mae'n allweddol i'r wybodaeth o'r asesiadau yma fwydo i mewn i'r system werthuso genomig fel bod gwybodaeth am deirw ifanc sydd wedi cael eu profi yn genomig yn cynnwys y wybodaeth am deip mwyaf dibynadwy posibl.

Gwelodd y brîd du a gwyn rai mân broblemau a thueddiadau fel tethi byrrach a choesau sythach yn sgoriau llinellol rhai teirw a heffrod uchel o ran g£PLI. Efallai na fydd hyn yn broblem mewn rhai systemau, ond gallai fod mewn eraill e.e. gall buchod ar systemau pori fod angen mwy o hyblygrwydd yn y goes ôl er mwyn cerdded ymhellach. Gall pwysedd Mynegai yn y dyfodol gael ei newid i gywiro'r diffygion llinellol yma.



Ffig 1. Marian Mawr 3328 – GP83

G£PLI vs Sgôr derfynol



Graff 1. G£PLI vs Sgôr derfynol a thuedd

Er mai nifer gyfyngedig oedd yn rhan o'r mesur ac nad oes tuedd bendant i'w gweld yn y graff uchod, roedd yr heffrod g£PLI uwch ym Marian Mawr yn sgorio yn dda gyda lle i ddatblygu ac aeddfedu tu hwnt i'w sgôr Da Plws (GP). Dangosodd astudiaethau yn y gorffennol bod heffrod sy'n lloea yn 22-24 mis ac yn sgorio GP80-84 pwynt yn y llaethiad cyntaf yn dueddol o fod yn fwy proffidiol na heffrod

hŷn sy'n sgorio yn uwch, neu sy'n disgyn i'r graddau is. Un heffer sy'n mynd yn groes i'r rheol hon yw heffer rhif 3307 a gafodd y radd uchaf (VG85pt) ond eto oedd ag un o'r gwerthoedd g£PLI isaf ymhlith y 15 y rhoddwyd sgôr iddynt. Mewn rhai amgylchiadau, byddai'r heffer hon wedi cael ei gwerthu neu ei chroesi â tharw biff petai'r penderfyniad wedi ei seilio ar ei mynegai yn unig.

Mae hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw gwerthuso pob anifail yn ôl ei ffenoteip yn ogystal â'i genoteip gan gofio mai 59%-65% yn ddibynadwy yw gwerthusiadau genomig, nid 99%. Yn yr un modd, nid yr heffrod â gwerth g£PLI uchel efallai yw'r rhai cywiraf neu sy'n edrych orau, ond efallai bod eu nodweddion iechyd, cynhyrchiant a hirhoedledd yn well. Yn y pen draw, mae anifail proffidiol hirhoedlog, beth bynnag yw'r brîd neu system, yn un sy'n cael ei reoli yn dda a gyda chydbwysedd o'r math, iechyd a chynhyrchiant cywir.

Ysgolheigion Nuffield yn dweud mai'r pridd yw'r allwedd i wytnwch ffermydd Cymru

Bydd deall priddoedd yn gadael i ffermwyr Cymru ddatblygu systemau ffermio cynaliadwy sy'n cyd-fynd â gofynion amgylcheddol eu defnyddwyr a llunwyr polisiau.

Dyna oedd y neges gyffredinol gan dri o Ysgolheigion Nuffield a rannodd eu hymchwil â Chynhadledd Ffermio Cymru 2019 Cyswllt Ffermio yn Llanfair ym Muallt.



Awgrymodd Richard Tudor, ffermwr da byw o Bowys sy'n trosi ei fferm ucheldir 800 erw i fod yn fferm laeth, y dylid defnyddio matrices ffisegol a biolegol wrth ddadansoddi pridd, nid un cemegol yn unig ac mae'n meddwl y dylai ffermwyr gymryd eu samplau eu hunain i ddod i adnabod eu priddoedd yn iawn.

"Fe fyddwch yn dysgu mwy am eich priddoedd nag y byddwch trwy ddim ond aros i'r dadansoddiad ddod yn ôl," dywedodd wrth y ffermwyr.

Rhaid i ffermwyr adeiladu bywyd i'r pridd trwy roi'r amodau gorau iddo ffynnu.


"Rhaid i gywasgu gael ei ystyried o ddifrif a dylid annog amrywiaeth o ran rhywogaethau."

Dim ond 5% o briddoedd glaswelltir y Deyrnas Unedig sy'n cael eu dadansoddi yn flynyddol sy'n golygu bod ffermwyr yn chwalu maetholion yn ddall.

"Er mwyn tyfu planhigion iach, mae arnoch angen priddoedd iach ac mae hynny'n golygu elfennau ffisegol a chemegol ac mewn ffordd fechan ond arwyddocaol, elfennau biolegol hefyd.

Rhaid i chi roi pwyslais ar y tair elfen, nid dim ond un ar ei phen ei hun," dywedodd Mr Tudor.

Y pH gorau i briddoedd ffynnu yw 6.3, dywedodd, ond o'r 4500 o briddoedd a samplwyd trwy Cyswllt Ffermio yng Nghymru mewn un flwyddyn, roedd 70% dan 6.



"Mae rhai ffermwyr yn meddwl bod 5.8 neu 5.9 yn ddigon agos, ond gall gwahaniaeth pH o ddim ond 0.1 olygu bod priddoedd yn llawer mwy asidig."

Astudiodd Geraint Powell, a faged ar y fferm deuluol ym Mannau Brycheiniog ac sy'n awr yn ŵyna 4200 o famogiaid Romney Seland Newydd yn y Cotswolds, dechnegau ar gyfer datblygu systemau cynhyrchiol a phroffidiol sy'n cyrraedd targedau amgylcheddol.

Roedd rhai o'r ffermydd yr ymwelodd â nhw yn mabwysiadu prosesau sy'n dynwared natur, i gynhyrchu'r amodau gorau i'w tir; roeddent wedi addysgu eu hunain am y cysylltiadau cymhleth rhwng yr haul, y pridd, planhigyn a'u hanifeiliaid.

Os nad yw eco-system y fferm yn gweithio'n effeithiol, ni fydd y da byw yn ffynnu, mynnodd Mr Powell.

Bydd derbyn manteision iechyd y pridd ac amrywiaeth y planhigion yn arwain at fwy o wytnwch, dywedodd. "Y lle mwyaf proffidiol i gadw da byw yw unrhyw lle lle mae natur yn ffynnu."



Geraint Powell

Cynghorodd Mr Powell y ffermwyr i gynllunio ar gyfer newid yn awr. "Os nag oes gennych gynllun 200 mlynedd, nid oes gennych gynllun o gwbl; roedd cynllunio hirdymor yn bendant yn gweithio i'r ffermydd yr ymwelais i â nhw."

Dywedodd wrth ffermwyr am gymryd amser i "eistedd yn ôl a darllen iaith eu tir". Roedd yn rhagweld y bydd amaethyddiaeth Cymru yn wynebu ambell i "glonc ar y ffordd" ond dywedodd: "Gallwn gael cysur yn y ffaith ein bod yn byw mewn lle lle bydd yr haul yn tywynnu, y bydd yn bwrw glaw ac y bydd planhigion yn tyfu."



Alexander Brewster

Mwyaf yn y byd o gynnwys organig y gall ffermwyr ei grynhoi yn eu pridd a mwyaf amrywiol yn y byd fydd y rhywogaethau a dyfir, mwyaf cynhyrchiol fydd y tir, dywedodd Alexander Brewster, yr oedd ei astudiaeth yn trafod cylchoedd maetholion.

Dywedodd Mr Brewster, sy'n rheoli 4000 hectar mewn partneriaeth â'i rieni ar Fferm Rotmell yn Swydd Perth, bod rheolaeth dda ar laswelltir yn hanfodol i gynyddu'r kilogramau o gig a werthir i bob hectar a phroffidioldeb y fferm. Roedd y cynhwysion i gael gwell porfa, dywedodd, yn cynnwys amrywiaeth o ran rhywogaeth y planhigion yn ogystal â strwythur y pridd a'i ansawdd a'r gyfrinach i gael porfa dda yw deall priddoedd.

Mewn ardaloedd lle mae'r glawiad yn drwm, mae gwella'r cynnwys organig yn allweddol i gynyddu gallu'r pridd i ddal dŵr.

Am bob gwelliant o 1% yng nghynnwys organig y pridd, mae'r gallu i ddal dŵr yn cynyddu o 2500 tonnall yr hectar, amcangyfrifodd.

"Yn ymarferol, gall hyn olygu pori yn gynharach yn yr haf ac yn hwyrach yn yr hydref pan fydd y tywydd yn wlyb gyda glaswellt o ansawdd da a llai o risg o botsio."

ENILLION O 4-I AR FUDDSODDIAD MEWN AIL-HADU AR FFERM BÎFF FUDDUGOL



Ger Dineen

Dywed ffermwr bîff clodfawr o'r Iwerddon sydd wedi dyblu ei gynhyrchiant glaswellt y gall ffermwyr Cymru gael yr un llwyddiant wrth reoli glaswelltir yn dda a chael rhaglen ail-hadu.

Mae Ger Dineen yn cadw 60 o fuchod ar 32 hectar (ha) o laswelltir yn Sir Cork lle mae'n tyfu cyfartaledd o 14t DM/ha, sydd wedi codi o 7t DM/ha yn 2012.

Llwyddodd i gyflawni hyn trwy ail-hadu â thetraploidau a meillion a thrwy reoli'r glaswelltir yn dda.

“Mae dyblu'r cynnyrch 'run fath â chael ail fferm drws nesaf,” dywed Mr Dineen, Ffermwr Bîff y Flwyddyn 2017 yn Iwerddon, sy'n ffermio yn Knockroe, Kilmartyra. Ond fydd gwella perfformiad glaswelltir ddim yn digwydd dros nos, mae'n rhybuddio.

“Rhaid i gemeg y pridd fod yn iawn a rhaid i chi ddefnyddio'r mathau cywir o laswellt ar gyfer eich fferm,” dywedodd wrth Gynhadledd Ffermio Cymru 2019 Cyswllt Ffermio.

“Nid ydym yn dewis cymysgedd o hadau mewn bagiau; rydym yn dewis y mathau o'r rhestr a rygmhellir.”

Mae Mr Dineen yn ail-hadu rhwng 10 a 15% o'i fferm yn flynyddol. “Am bob €100 rwy'n ei wario ar ail-hadu, rwy'n cael €300-€400 yn ôl mewn gwel cynhyrchiant; mae'r peth yn amlwg.”

Mae ei fuchod a'r lloeau ar laswellt rhwng Chwefror a Thachwedd; mae troi allan yn gynnar yn werth €1200 yr wythnos ym mis Chwefror.

“Mae rhai ffermwyr yn dweud ei bod hi'n ormod o drafferth pori mewn sribedi yn Chwefror, ac ydi, mae o'n dipyn o waith, ond os yw'n golygu €1200 yn fy mhoced, mae'n werth unrhyw galedi.

“Cyn belled â bod digon o gysgod i'r lloeau, mae'r gwartheg allan yn Chwefror ac os bydd y tywydd yn digwydd bod yn wael, maen nhw allan am dair awr ac wedyn yn dod i mewn am dair.”

Mae ffensys yn gadael i'r lloeau bori o flaen y buchod, ac mae rhai teirw yn cyrraedd cynnydd mewn pwysau byw dyddiol (DLWG) o **2kg** o laswellt yn unig; cyfartaledd y DLWG i deirw Mr Dineen yw **1.7kg** ac **1.5kg** i heffrod.



Paratoi uned bîff at y dyfodol - defnyddio technoleg i wella llwyddiant wrth bennu targedau

Sarah Hughes - Swyddog Technegol Cig Coch, Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio wedi cychwyn prosiect newydd i fesur effeithiolrwydd uned gorffen bîff ger Aberteifi. Bydd y prosiect yn cynnwys technoleg EID, mesur chynnydd pwysau byw (DLWG) i gynyddu effeithlonrwydd wrth orffen a rheoli iechyd y buchod. Bydd y prosiect yn defnyddio egwyddorion 'Mesur i Reoli' i alluogi'r ffermwr i wneud penderfyniadau ar sail DLWG y gwartheg ac i ystyried pa ymyraethau sydd eu hangen i wella effeithlonrwydd ar yr uned gan leihau'r nifer o ddyddiau cyn eu lladd.

Y nod yn y pen draw i'r ffermwr yw gallu gwneud penderfyniadau ffeithiol ar gyfer y fenter yn seiliedig ar wybodaeth gadarn am bwysau a chostau ei wartheg. Bydd hyn yn ei dro yn ei alluogi i leihau'r amser a gymer i besgi'r gwartheg gan ddal i gyrraedd y fanyleb ofynnol gan y prosesydd.

Bydd milfeddyg y fferm yn llunio cynllun iechyd i'r fuches i ddynodi unrhyw broblemau a all fod ymhlith y gwartheg a brynir i mewn. Bydd Cyswllt Ffermio, ynghyd â Hefin Richards (Arbenigwr Maeth), yn llunio gwaelodlin ar gyfer dognau

maeth y system fel y mae ar hyn o bryd cyn i'r prosiect gychwyn ac yn cymharu costau dognau newydd. Bydd samplau silwair o'r pit yn cael eu dadansoddi yn fisol a bydd unrhyw newidiadau i'r dognau yn cael eu gwneud fel ymateb i hynny.


Bydd y gwartheg yn cael tag EID ac yn defnyddio system a darllenwyd Tru-Test i fonitro cynnydd pwysau dyddiol a defnyddio'r system i gofnodi data ychwanegol fel brîd a dyddiad geni. Bydd data o'r system EID/pwyso yn cael ei ddefnyddio i addasu dognau, a bydd costau llawn y dognau yn cael ei gymryd i gynnal dadansoddiad o'r elw ar y buddsoddiad ar ddiwedd y prosiect. Bydd y ffermwr hefyd yn anelu at sicrhau'r proffidioldeb mwyaf yn yr wythnosau olaf wrth besgi y gwartheg trwy edrych ar graff o'r cynnydd pwysau dyddiol mewn cymhariaeth â'r costau porthiant ac yn anelu i werthu'r anifail cyn y pwynt lle maent yn croesi. Mae'r fferm yn awyddus iawn i edrych ar sut y gall technoleg EID a phwyso cyson gael eu hintegreiddio i'r system i gynorthwyo i fonitro perfformiad corfforol a chynorthwyo i wneud penderfyniadau ariannol.



Mae cynnwys india corn wedi ei dyfu gartref mewn dogn ar fenter gorffen bîff ar Ynys Môn yn arwain at weld y gwartheg yn cyrraedd y targedau lladd yng nghynt

Mae Arwyn Jones yn ffermio mewn partneriaeth â'i fam, Eirwen, ar [Fferm Plas](#), Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio yn Llandegfan.

Mae Arwyn yn gorffen 700 o wartheg y flwyddyn - anifeiliaid rhwng 18 a 22 mis oed ac yn pwysu tua 500kg, y mae'n eu prynu yn bennaf ym marchnad Gaerwen.



Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae wedi cynyddu niferoedd y defaid ac mae'n teimlo bod hyn wedi cael effaith ar ansawdd a chyfanswm y silwair y mae'n gallu ei dyfu.

Er mwyn gwrthweithio hyn, ac i leihau ei ddibyniaeth ar borthiant wedi ei brynu i mewn, mae'n awr yn tyfu india corn – 21 erw i gychwyn, gan gynyddu i 41 erw yn 2018; eleni mae'n bwriadu hau hyd at 60 erw.

Mae'r dogn pesgi yn cynnwys silwair india corn wedi ei dyfu gartref, gwellt, barlys, gwenith a blawd bisgedi wedi ei brynu i mewn, glwten india corn, burum, mwynau a thriogl.

Trwy ychwanegu india corn at y diet, mae gwartheg yn trosi yn syth i'r dogn pesgi.



“Roedd yn arfer cymryd deng diwrnod neu fwy i anifeiliaid drosglwyddo i'r dogn pesgi, ond ers i ni gynnwys india corn, gallwn fynd yn syth at y diet gorffen pesgi ar y cyfan; nid oes unrhyw ataliad ar y tyfiant ac rydym yn eu gorffen yng nghynt,” dywedodd wrth ffermwyr oedd yn mynychu diwrnod agored Cyswllt Ffermio.

“Gall hynny olygu gwahaniaeth o **£20-£30** yng nghost gorffen un anifail oherwydd mae'n costio arian i ni bob diwrnod y mae yn y sied.” Pwysleisiodd bwysigrwydd profi india corn yn gyson am ei ansawdd a'i ail-brofi os na fydd y canlyniad fel y byddid yn disgwyl.

Pan brofwyd ei silwair india corn yn 2018 gyntaf, roedd yn dangos cynnwys sych o 26.9%, 11.4ME a 26.3% starts. Roedd y canlyniad yma yn waeth na'r hyn a ddisgwylid, felly fe ofynnodd iddo gael ei ail-brofi, ac roedd y canlyniadau yn eithaf gwahanol.

“Oni bai ein bod wedi ail-profi, fe fyddem wedi parhau i wario **£98 ychwanegol y dydd** ar glwten india corn yn unig; arian nad oedd angen i ni ei wario,” dywedodd, ac mae yn awr yn profi ei silwair india corn yn fisol.

Fis yn ddiweddarach ac ymhellach i mewn i'r clamp, roedd y nodweddion wedi newid yn sylweddol gyda chynnwys sych o 33.9%, 11.6 ME a 37% o starts.

Mae rhoi'r porthiant mewn bynceri yn hytrach na thu ôl i reiliau hefyd yn cyfrannu at fwy o gynnydd mewn pwysau dyddiol ac amseroedd cyflymach.

“Gyda bynceri, nid oes eiliad yn ystod y dydd pan nad oes bwyd o flaen y gwartheg, ac mae'n fwy effeithlon o ran llafur oherwydd nad ydym yn gorfod cynyddu'r porthiant,” esboniodd.

Mae'n gwerthu cyfran fawr o'i wartheg i Dunbia, gan sicrhau eu bod yn lân ac wedi eu tocio cyn iddynt adael y fferm.

Dywedodd Laura Talbot, Rheolwr Amaeth Biff yn Dunbia, bod gwartheg yn gadael ffermydd yn fudr wedi bod yn broblem benodol yn ddiweddar, o bosibl bod hynny oherwydd bod ffermwyr yn ceisio arbed arian ar gostau deunydd dan yr anifeiliaid a'r tywydd gwael.

Pwysleisiodd Ms Talbot, oedd yn siarad yn y diwrnod agored, bwysigrwydd cyflwyno gwartheg glân i'w lladd. Bydd methu gwneud hynny yn arwain at oblygiadau costau i ffermwyr a'r her bosibl na fydd carcasau yn cyrraedd y meini prawf oherwydd eu bod wedi eu halogi gan fawr ar eu crwyn.

Yn y diwrnod agored, fe wnaeth y ffermwyr hefyd dderbyn cyngor ar faterion iechyd yn gysylltiedig â'r cyfnod dan do gan y milfeddyg Oli Hodgkinson o Filfeddygon Trefaldwyn a enillodd wobr Cyngorydd Fferm y flwyddyn *Farmers Weekly* yn 2018.

Dywedodd Mr Hodgkinson mai pan fydd y gwartheg dan do yw'r amser delfrydol i'w trin am afiechydon parasitig, a phrofi tail yw'r ffordd orau i sicrhau nad yw triniaethau yn cael eu rhoi yn ddiangen.

Rhybuddiodd y ffermwyr i beidio â thrin y gwartheg i gyd am lyngyr gan y bydd gan fuchod aeddfed imiwnedd. Dylai'r pwyslais fod ar ddosio stoc ifanc, yn lle hynny, dywedodd Mr Hodgkinson.

“Os oes problem lyngyr y gwyddoch amdani, gofynnwch i'ch milfeddyg a fyddai cynnyrch cyfun yn addas,” argymhellodd.



Arwyn Jones

Archwilio manteision posibl canfod amrywiolion o Fyostatin mewn buchesi bîff masnachol

Gellir canfod y genyn Myostatin ym mhob mamal ac mae'n dylanwadu ar gynhyrchu protein sy'n rheoli datblygiad cyhyrau. Mae mwntaniadau naturiol ar y genyn yn cynhyrchu proteinau sy'n llai effeithiol wrth reoli datblygiad cyhyrau, ac mae hynny'n arwain at gynyddu màs y cyhyrau, a elwir yn fwy cyffredinol yn enyn cyhyr dwbl mewn gwartheg. Ceir naw o fwtaniadau hysbys o'r genyn Myostatin mewn gwartheg, rhai ohonynt yn benodol i'r brid ac eraill sy'n effeithio ar fwy nag un brid.

Prif nod y prosiect hwn yw samplu DNA anifeiliaid sy'n rhan o fuches bîff masnachol sy'n cynnwys oddeutu **75%** o eneteg brid Limousin er mwyn canfod yr amrywiolion o Fyostatin sy'n cael eu cludo gan y buchod bridio presennol a'r darpar fuchod bridio. Er gall presenoldeb rhai amrywiolion penodol o Fyostatin fod yn llesol i nodweddion y carcass, gall cyfuniadau penodol arwain at fwy o anawsterau lloia a lleihau ffrwythlondeb a'r gallu i gynhyrchu llaeth.

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio gyda Wyn Williams ar Fferm Penrhyn i ganfod pa amrywiolyn o'r gennyn Myostatin y mae ei fuches yn ei gario, er mwyn gallu cynorthwyo gyda'r penderfyniadau ynghylch bridio, i leihau anawsterau posibl wrth loia a chynhyrchu anifeiliaid cyfnewid gyda nodweddion mamol da.

Bydd y prosiect yn darparu glasbrint defnyddiol ar gyfer cynhyrchwyr bîff pedigree a masnachol sy'n wynebu anawsterau wrth loia, gan fod Myostatin yn cynrychioli un o'r ffactorau dylanwadol.

Afiechydon 'Rhewfryn' mewn Defaid

College Farm, Trefeca, Aberhonddu

Elan Davies - Swyddog Technegol Cig Coch, Cyswllt Ffermio

Mae llawer o gyflyrau all achosi cyflwr gwael mewn diadelloedd o ddefaid, **fel llyngyr yr iau, baich o lyngyr a diffyg elfennau hybrin**. Gall y cyflwr gwael hefyd gael ei achosi gan bresenoldeb yr 'afiechydon rhewfryn' canlynol: Ovine Pulmonary Adenocarcinoma/Jaagsiekte (OPA), Maedi Visna (MV), Caseous Lymphadenitis (CLA), Afiechyd Johne (OJD) ac Afiechyd Border (BD). Gelwir yr afiechydon hyn yn 'afiechydon rhewfryn' am bod llawer llai o niferoedd yn cael eu cofnodi nag sydd yn bodoli mewn gwirionedd.

Mae'r ymwybyddiaeth o'r afiechydon yma yn brin, ac awgrymodd arolwg yn ddiweddar bod llai na 5% o ffermwyr yn sgrinio amdanynt fel rhan o'r patrwm arferol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod yr afiechydon yn anodd iawn i roi diagnosis a gallant fodoli mewn diadell am flynyddoedd lawer cyn i unrhyw arwyddion clinigol ddod yn amlwg. Mae'r afiechydon rhewfryn yma yn creu sialensiau sylweddol i gynhyrchiad diadelloedd defaid a gallant fod yn gostus i'r ffermwr. Mae hyn yn golygu y gall yr afiechydon ymledu yn sylweddol cyn iddynt gael eu canfod, ac felly, gall fod yn anodd rheoli'r afiechydon.

Ni welir yr arwyddion clinigol yn aml nes bydd tua 50% o'r ddiadell wedi ei heintio ac ar y cam hwnnw mae'n anodd iawn cael gwared o'r afiechyd, os nad yn amhosibl. Mae'n bwysig iawn gwybod pa rai sy'n bresennol fel y gellir ymdrin yn briodol â nhw.

Mae ymchwiliad i'r afiechydon hyn ar y gweill yn awr ar fferm ffocws Cyswllt Ffermio ger Aberhonddu. Darganfu College Farm yn Nhrefeca bod ganddynt OPA yn dilyn post mortem ar famog oedd wedi marw yn sydyn yn 2017. Roedd y famog yma mewn cyflwr da pan fu farw, gan ddangos nad yw pob dafad sy'n cario'r afiechydon yma yn denau ac yn dangos arwyddion clinigol. Trwy weithio'n glos gyda'r milfeddyg lleol a phractis y milfeddygon, prif nod y prosiect hwn yw deall gwir statws iechyd y ddiadell ar College Farm; dynodi pa afiechydon (os o gwbl) sy'n bresennol, a datblygu camau rheoli ac atal effeithiol.



Canfod Afiechyd yn Gynnar - Gwell Bioddiogelwch yn Allweddol i Leihau'r Defnydd o Wrthfotigau ar gyfer Dofednod



Yn ddiweddar cynhaliodd Cyswllt Ffermio nifer o ddigwyddiadau yn canolbwyntio ar wrthedd gwrthfotig a sut y gallwn fod yn fwy cyfrifol wrth ddefnyddio gwrthfotigau. Arweiniodd Ian Jones o Grŵp Milfeddygol Hafren gyfarfod yn y Trallwng ym mis Ionawr yn benodol ar gyfer ffermwyr dofednod ar y pwnc hwn.

Esboniodd Ian y broblem ehangach o ran y ffordd y mae gwrthedd yn effeithio ar iechyd pobl ac y gall amaethyddiaeth gael peth dylanwad ar ddiogelu pobl rhag gwrthedd gwrthficrobaidd trwy ddal ati i adolygu bioddiogelwch ar bob cam wrth gynhyrchu a thrwy addasu arferion rheoli afiechydon.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd mawr wedi bod mewn systemau wyau maes yng Nghymru sy'n arwain at heriau bioddiogelwch, gan fod adar sy'n cael eu ffermio'n rhannu'r un gofod ag adar gwyllt.

Bydd bioddiogelwch caeth ar y fferm ar y cyd â brechu yn helpu cynhyrchwyr wyau a brwyliaid Cymru i barhau ar y patrwm o ostyngiad rhyfeddol yn y defnydd o wrthfotigau.

Fel diwydiant hefyd, gwnaed ymdrechion eisoes i leihau'r defnydd neu i gael gwared ar wrthfotigau sy'n cael eu hystyried yn allweddol bwysig i iechyd pobl (CIA) yn llwyr. Ni ddefnyddiwyd cephalosporinau ail a thrydedd genhedlaeth wrth gynhyrchu dofednod o gwbl ers 2012, tynnwyd colistin yn 2016 ac mae'r defnydd o fluoroquinolonau wedi cael ei ostwng o 91% mewn chwe blynedd.

Mae canfod afiechydon yn gynnar yn hanfodol hefyd i ddynodi pa afiechyd sydd angen ei drin. Os bydd afiechyd yn cael ei drin yn brydlon, mae llai o risg y bydd yr adar yn dioddef ymosodiad gan afiechyd arall. Ar ôl i afiechyd ddatblygu yn yr haid, mae'n anos ei reoli. Roedd Ian yn cyfrifo bod ffioedd labordy yn fuddsoddiad cymharol fach pan gaiff ei gymharu â chost triniaethau neu golledion wrth gynhyrchu os bydd yr afiechyd yn gwaethygu.

Nid oedd Ian yn argymhell y dylai ffermwyr stopio defnyddio gwrthfotigau. Mae'n amlwg bod gwrthfotigau ar gael ac y dylent barhau i fod ar gael i gadw iechyd a lles yr adar. Dylid defnyddio dull "cyn lleied â phosibl, ond cymaint ac sydd ei angen" i sicrhau y gellir osgoi problemau gwrthedd yn y dyfodol a byddwn yn diogelu'r defnydd o wrthfotigau i bobl a dofednod yn y dyfodol, dywedodd.

MENTRO BACHWCH EICH CYFLE I FFERMIO



CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

Ydych chi eisiau Mentro i redeg eich busnes ffermio eich hun?

Mae Mentro ynparu newydd ddyfodiaid gyda thirfeddianwyr sydd eisoes wedi sefydlu ac yn cynnig arweiniad busnes a chyfreithiol i sefydlu menter ar y cyd.

Mae'r cyfleodd isod yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd. I weld manylion llawn y ffermydd hyn, ymunwch â rhaglen Mentro fel Ceisiwr trwy lenwi eich proffil ar [wefan Cyswllt Ffermio](#).

Lleoliad	Maint y daliad (hectar)	Sector	Rhif cyfeirnod
Llangadog	38	Defaid	47
Hwlfordd	2	Garddwriaeth	87
Caerfyrddin	40	Defaid	105
Trefynwy	48	Biff a Defaid	151
Y Gelli Gandryll	60	Biff a Defaid	169
Abergele	100	Biff a Defaid	189
Llanfyllin	29	Coedwigaeth	220
Tŷ Ddewi	1.2	Garddwriaeth	239
Caerfyrddin	36	Biff a Defaid	244
Aberystwyth	108	Biff a Defaid	268
Dinbych	150	Biff a Defaid	273
Aberteifi	73	Llaeth	326
Conwy	47	Llaeth	340
Abertawe	18	Biff a Defaid	412

92

o bobl wedi cael eu paru eisoes ac yn gweithio ar eu cynlluniau busnes



19


wedi cwblhau'r broses ac wedi sefydlu eu mentrau ar y cyd newydd



Neu efallai eich bod yn ffermio gyda rhywun arall ond yn awyddus i ffurfioli'r cytundeb, **buddsoddi** neu **gynyddu eich ymrwymiad** i busnes.

Cysylltwch â ni i weld sut y gallwn eich helpu.

Ar y llaw arall, os ydych chi'n dirfeddiannwr ac yn awyddus i gyflwyno gwaed **newydd** i'ch busnes, cysylltwch â ni i **hysbysebu eich cyfle** yn ddiennw.



DYFODOL DISGLAIR I BÂR O FFERMWYR O GEREDIGION A'U PARTNER BUSNES IFANC NEWYDD



CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

Mae blwyddyn a hanner wedi mynd heibio ers i Gareth Stephens fynegi pryder ynglŷn â dyfodol y fferm wrth siarad gydag un o'i hen ffrindiau ysgol ym marchnad Aberteifi.

Roedd y sgwrs yn un dyngedfennol!

Roedd yn sgwrsio gyda thad ffermwr ifanc sydd bellach yn bartner gyda chyfran yn y busnes.

Mae cwrdd ag Aled Morgan, ac yna manteisio ar wasanaethau rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio wedi rhoi'r cyfle perffaith i Gareth a Pam, sydd â thri phlentyn sydd â'u gyrfaedd eu hunain, gamu'n ôl o'u gweithgareddau dydd i ddydd ar y fferm, gan aros yn eu ffermdy eu hunain a pharhau i redeg eu busnes carafanau.

Graddiodd Aled, sydd yn ei 30au cynnar, o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd mewn amaethyddiaeth. Mae'n stocmon profiadol, gyda'i deulu'n ffermio'n lleol, ac mae bellach yn bartner gyda chyfran gyfartal yn y fferm bîff a defaid 250 erw.

Ar ôl mynychu cymhorthfa olyniaeth Cyswllt Ffermio'r llynedd, roedd Gareth a Pam eisoes yn ymwybodol o'r rhaglen Mentro. Unwaith iddynt sylweddoli eu bod wedi canfod y partner busnes perffaith, roedden nhw'n gwybod y byddai menter ar y cyd yn ateb gwell na chyflogi stocmon.

Er nad oedd angen iddynt ddefnyddio elfen baru'r rhaglen Mentro, cawsant gyfle drwy Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio i gomisiynu cynllun busnes newydd a ddarparwyd gan Wendy Jenkins, o gwmni ymgynghori amaethyddol Cymreig CARA.

“Bûm yn gweithio gyda'r teulu Stephens ac Aled, gan eu galluogi i ystyried holl asedau ac adnoddau'r fferm a fyddai'n cael eu cynnwys mewn unrhyw gytundeb ffermio cyfran ffurfiol newydd, a darparu cynllun busnes strategol sy'n amlinellu sut allai'r fferm ddatblygu ymhellach at y dyfodol.

“Roedd yn gyfle i'r ddwy ochr ystyried yr hyn y byddent yn gallu ei gynnig i'r bartneriaeth, eu disgwyliadau ynglŷn â sut fyddai'r trefniant yn gweithio'n ymarferol, a'r hyn yr oeddent eisiau ei gyflawni yn y pen draw,” meddai Mrs Jenkins.

Mae Aled bellach yn berchen ar hanner stoc y fferm ac yn gwbl gyfrifol ohonynt. Gyda holl gostau'r fferm yn cael eu gosod yn erbyn incwm, mae gweddill yr alw'n cael ei rannu rhwng y teulu Stephens ac Aled.

Mae Mentro hefyd wedi darparu cyngor cyfreithiol wedi'i ariannu'n llawn ac a ddarparwyd gan y cyfreithiwr gwledig arbenigol Manon Williams o gwmni Agri Advisor i helpu'r partneriaid ddewis y fframwaith cyfreithiol fwyaf addas.

Mae Aled, sy'n dal i gynnig help llaw ar fferm ei deulu ac yn gwneud gwaith contractio pan fo amser yn caniatáu, wedi derbyn llety gan Gareth a Pam, sy'n golygu ei fod ar y safle, yn enwedig yn ystod adegau prysur.

18 mis yn ddiweddarach, mae Gareth a Pam yn hapus iawn gyda chanlyniad y fenter newydd ar y cyd.

“Nid oeddem yn dymuno gwerthu na rhentu'r fferm, ond mae cyflwyno ffermwr ifanc sy'n weithiwr caled iawn, yn wybodus ac yn haeddu cyfle, wedi profi'n werth chweil.”

Am ragor o fanylion am y fenter ar y cyd, ewch i wefan Cyswllt Ffermio.



Gareth a Pam Stephens ac Aled Morgan

Gweithredu rheoli maeth datblygedig yn niwydiant defaid Cymru



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Mae ar ein mamogiaid magu angen cydbwysedd manwl o elfennau pwysig a hybrin mewn symiau amrywiol i fod yn iach a chynhyrchiol. Yn y prosiect hwn gan EIP Cymru, mae 12 o ffermwyr o bob rhan o Ogledd Cymru yn defnyddio dull arloesol o gynllunio maethiad mamogiaid magu. Maent yn ymchwilio i anghenion y diadelloedd unigol o ran elfennau hybrin gan geisio cael cydbwysedd rhwng hyn ac achosion tebygol eraill perfformiad gwael.

Diweddariad prosiect

Cyn troi at yr hwrdd yn 2018, casglwyd samplau gwaed, iau ac ysgarthion gan 107 o famogiaid i ymchwilio i statws elfennau hybrin y diadelloedd gan ddefnyddio labordy NuVETNa ym Mhrifysgol Nottingham, gan geisio canfod y rhesymau eraill posibl am berfformiad gwael e.e. parasitiaid.


Casglwyd y data ar gyfer pob diadell gan eu milfeddyg, Dr Joseph Angell o Filfeddygon y Wern oedd wedyn yn cael ei gyflysu â dadansoddi sampl o borthiant i lunio cyngor o ran maethiad ar gyfer y cyfnod cyn troi ar yr hwrdd a phan yn gyfeb.

Dangosodd y data rai pethau tebyg a rhai gwahaniaethau rhwng y diadelloedd, ac mae'r cyngor penodol wedi amrywio o ddiadell i ddiadell. Rydym wedi canfod, ar sail yr ymchwiliad, bod ar un ddiadell angen ategu copr, seleniwm a sinc. Nid oedd gan y mamogiaid unrhyw lyngyr yr ysgyfaint na nifer sylweddol o lyngyr eraill, ond fe gawsant rai canlyniadau oedd yn awgrymu eu bod wedi bod yn ymladd yn erbyn heintiad. Mae ymdrin â'r gofynion o ran elfennau hybrin ac ail-edrych ar y dulliau brechu a rheoli heintiadau yn debygol o

arwain at fanteision tymor hir. Dywedodd llawer o'r ffermwyr bod y dull ymchwilio gweithredol hwn wedi ysgogi'r meddwl ac wedi creu trafodaethau bywiog!

“Mae'r canlyniadau, cyn belled, yn dangos y gall fod problemau tangyflawni neu or-gyflawni heb eu canfod, ac mae'n bwysig ymchwilio yn drylwyr i gael darlun cyflawn o faethiad cyffredinol y famog, yn arbennig pan ddaw yn fater o elfennau fel copr. Dylai'r dull ymchwiliol hwn ganiatáu i ffermwyr ddeall yn well beth sy'n mynd ymlaen tu mewn i'r famog cyn i unrhyw symptomau clinigol o ran tan-gyflenwi neu or-gyflenwi ategion ddigwydd,” dywedodd Dr Joseph Angell.

Wrth symud ymlaen, bydd y diadelloedd yn awr yn cael dadansoddiad gwaed eto i reoli'r cyflenwad ynni a phrotein yn nes at wyna cyn gwaith dilynol, mwy manwl yn yr haf.



Ffermwyr yn cydweithio i drechu clafr

Mae'r clafr yn achosi colledion economaidd a lles difrifol ac yn costio £5.86m y flwyddyn i'r diwydiant defaid yng Nghymru. Un mater allweddol yw pa mor hawdd yw hi i'r heintiad symud o ddiadell i ddiadell, oherwydd sialensiau bioddiogelwch, neu wahanol amserlenni ar gyfer triniaeth rhwng ffermydd cyfagos. Yr ateb gorau yn y tymor hir i drin y clafr yw cael gwared ar y clefyd o Gymru a gweddill Prydain.

Yn y prosiect tair blynedd hwn bydd grŵp mawr o ffermwyr o ardal Talybont, Gogledd Ceredigion yn ymchwilio sut y gall cydweithio, yn hytrach na gweithio ar ffermydd unigol, wella llwyddiant y driniaeth clafr. Y gobaith yw, trwy ddefnyddio technegau diagnosis a thrin y clafr sy'n bodoli mewn modd wedi ei gydlynw, y bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd y driniaeth clafr.

Cynllun y Prosiect

Bydd y ffermwyr yn edrych ar wella lefelau bioddiogelwch ar eu ffermydd yn y lle cyntaf.

Profi a diagnosis

- Bydd sampl o bob diadell yn cael eu profi gyda'r prawf gwaed ELISA. Mae'r prawf gwaed hwn yn cynnig mwy o gywirdeb na'r crafiadau croen a ddefnyddir ran amlaf
- Gall y prawf ganfod clafr cyn pen pythefnos ar ôl heintio, cyn i'r briwiau gweledol ymddangos, gan alluogi ffermwyr i gadw unrhyw anifeiliaid sydd wedi'u heintio ar wahân i'r ddiadell i atal lledaeniad pellach
- Os byddant wedi eu heintio, bydd yr anifeiliaid yn cael eu cofnodi a bydd cynllun triniaeth rhwng y milfeddyg a'r ffermwr yn cael ei weithredu
- Bydd yr holl ffermydd cyfagos yn cael gwybod a byddant yn profi am glafr mor fuan ag sy'n ymarferol

Triniaeth

- Trafodir triniaethau addas rhwng y ffermwyr a'u milfeddyg gan roi blaenoriaeth i ddipio pan fydd yn bosibl
- Mae dip Organophosphate (OP) yn rhoi mwy o sicrwydd a phan fydd yn cael ei ddefnyddio gan gontractwyr cymwys, mae'r risg i iechyd pobl a'r amgylchedd yn cael ei lleihau

Ymweliad dilynol

- Cyn pen deufis o'r driniaeth, bydd y milfeddyg lleol yn ymweld eto i gymryd rhagor o brofion gwaed i werthuso effeithiolrwydd y driniaeth

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, y byddai £5 miliwn ar gael drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig i ddarparu prosiect dan arweiniad y diwydiant i drechu'r clafr yng Nghymru. Bydd rhagor o fanylion am y prosiect yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf.

Ydych chi eisiau gwella eich sgiliau TG?

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu hyfforddiant cyfrifiadurol wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

Gallwn eich cynorthwyo i...

- ✓ Reoli eich busnes yn fwy effeithlon
- ✓ Lleihau eich gwaith papur
- ✓ Arbed amser ac arian



AR GYFER DECHREUWYR

Gallwch fynychu cwrs hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn dros gyfnod o chwe wythnos, a gyflwynir ar sail sesiynau dwy awr bob wythnos mewn lleoliadau ledled Cymru, wedi'u darparu gan diwtoriaid coleg sy'n ymwneud â diwydiannau'r tir.

Dysgwch sut i:

- ✓ Ddefnyddio Microsoft Word a Google documents
- ✓ Creu a rheoli taenlenni
- ✓ Creu a rheoli negeseuon e-bost
- ✓ Defnyddio'r we ar gyfer eich busnes
- ✓ Cael mynediad at wefannau defnyddiol gan gynnwys gwefan Llywodraeth Cymru
- ✓ Hyrwyddo eich busnes drwy'r cyfryngau cymdeithasol

HYFFORDDI UN-I-UN AR GYFER Y RHAI SYDD Â SGILIAU TG SYLFAENOL

Gallwch ymgeisio am ddau ymweliad dwy awr o hyd gyda thiwtor TG arbenigol, wedi'u hariannu'n llawn. Bydd yr hyfforddiant wedi'i deilwra i'ch gofynion gan ganolbwyntio ar unrhyw broblemau neu fylchau yn eich gwybodaeth.

Dysgwch sut i:

- ✓ Gael mynediad at wefannau perthnasol i'ch busnes
- ✓ Defnyddio unrhyw becynnau meddalwedd yr ydych chi wedi'u prynu
- ✓ Datrys unrhyw broblemau TG ar eich dyfeisiau personol eich hunain (e.e. Cyfrifiadur, gliniadur, tabled, ffôn symudol)

I UNIGLION SYDD EISIAU DYSGU AM Y TG DIWEDDARAF

Bydd y gweithdai wedi'u hariannu'n llawn yn dysgu chi sut i integreiddio'r TG diweddaraf i'ch busnes. Ewch i'n gwefan am restr o bynciau, dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r gweithdai.

Dysgwch:

- ✓ Sut y gellir defnyddio Technoleg Gwybodaeth yn eich busnes fferm a choedwigaeth
- ✓ Sut mae busnesau amaethyddol modern eraill yn elwa o Dechnoleg Gwybodaeth

I gael mynediad at hyfforddiant TG wedi'i ariannu'n llawn, mae angen i chi fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. I ddatgan eich diddordeb mewn hyfforddiant TG ac i dderbyn galwad gan un o'n tîm, cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth neu ewch i [wefan Cyswllt Ffermio](#).

Wyddoch chi faint o effaith y gall BVD ei gael ar eich buches?



Mae Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yn afiechyd heintus iawn i wartheg ac mae'n creu colled economaidd fawr yn y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd mae ymgyrch i geisio cael gwared arno - [Gwaredu BVD](#).

Bydd y gweithdy BVD yn helpu ffermwyr i ddysgu rhagor am y rheswm pam y dylent geisio cael buches heb BVD a sut i gyflawni'r nod hwnnw. Bydd pwyslais y gweithdy hwn ar ddysgu pa gamau y gellir eu cymryd i leihau'r risg y bydd BVD yn dod i mewn i fuches (bioddiogelwch) ac i'r afiechyd ymledu ymhellach mewn buches wedi ei heintio (biogyfyngu). Yn y gweithdy rhyngweithiol bydd ffermwyr yn

trafod BVD gyda milfeddygon profiadol o'u practis lleol ac yn dysgu sut i ddynodi rhannau o'u dulliau rheoli buches sydd yn creu risg ar gyfer cyflwyno BVD neu ei weld yn ymledu. Dylai'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd ffermwyr yn eu cael os cânt eu gweithredu ar y fferm wedyn arwain at well iechyd, cynhyrchiant a phroffidioldeb i'r fuches.

Mae'r gyfres o weithdai yn seiliedig ar bwysigrwydd cynllunio iechyd milfeddygol ac annog ymdrech hollol gydweithredol rhwng ffermwyr a'u milfeddyg yn gweithio mewn partneriaeth. Mae cwmnïau milfeddygol ar draws Cymru yn cyflwyno cyrsiau hyfforddi byr wedi eu hariannu yn llawn trwy Raglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes Cyswllt Ffermio gyda'r hyfforddiant wedi ei ddatblygu ar y cyd gan Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Afiechydon Anifeiliaid Cenedlaethol (NADIS).

Yn ogystal â chyflwyno gweithdai BVD, bydd y rhaglen hyfforddi a ariennir yn cynnwys modylau ar Frwydro yn Erbyn Gwrthedd Gwrthfotigau ac Anthelmintig; Cynllunio Iechyd Anifeiliaid, Gwaredu Diciau Gwartheg, Lleihau Cloffni, Lleihau Mastitis a Cholledion wrth Wŷyna, Deall Afiechyd Johnes a Rheoli Parasitiaid mewn Defaid.

Bydd yr holl gyrsiau a gwblheir yn cael eu cofnodi yn awtomatig ar gofnodion Datblygu Proffesiynol Parhaus y cleient ar wefan BOSS Busnes Cymru, gan gynnwys tystysgrif presenoldeb Lantra.

Am rhagor o wybodaeth a dyddiadau gweithdai sydd i ddod, ewch i [wefan Cyswllt Ffermio](#).

Clinigau un-i-un Cyswllt Ffermio

Clinigau un-i-un, wedi'u teilwra a'u hariannu'n llawn



CLINIGAU PRIDD A GLASWELLTIR

Ymgynghoriad un-i-un ar eich fferm gydag arbenigwr priddoedd a glaswelltir i drafod pynciau megis; gofynion maeth, rheoli chwyn a brwyn, draenio, strwythur y pridd neu bori cylchdro

CLINIGAU PROFI IECHYD ANIFEILIAID

Samplu, profi ac adborth un-i-un gan filfeddygon lleol




DEFNYDDIO MEDDYGINIAETH MEWN MODD CYFRIFOL AC EFFEITHIOL

Cyfle i adolygu defnydd o feddyginiaeth ar y fferm neu drafod materion iechyd anifeiliaid penodol gyda'ch milfeddyg

ISADEILEDD A DYLUNIAD ADEILADAU

Ymweliad un-i-un i drafod ffyrdd o wella eich isadeiledd fferm a dyluniad eich adeiladau i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau risgiau i'r amgylchedd



YCHWANEGU GWERTH AT GOETIR AR Y FFERM

Asesiad o sut fyddai modd i chi ychwanegu gwerth at goetir presennol neu arfaethedig

ARALLGYFEIRIO

Ymweliad i drafod cyfleoedd a syniadau ynglŷn â gwneud y gorau o adnoddau presennol ar eich fferm



Bydd clinigau'n cael eu cynnal ar sail y cyntaf i'r felin.

I gofrestru ar gyfer un neu fwy o'r clinigau, cysylltwch â'ch [Swyddog Datblygu Lleol](#) neu Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813

Cydymffurfio â Gwneud Treth yn Ddigidol (MTD) erbyn Ebrill 2019 – paratoi gyda chefnogaeth Cyswllt Ffermio

Bydd angen i bob busnes fferm a choedwigaeth sydd â throsiant trethadwy sy'n uwch na'r trothwy cofrestru ar gyfer TAW, sef **£85,000** y flwyddyn, gadw eu cofnodion yn electronig, gan ddefnyddio meddalwedd weithredol sy'n gydnaws â Gwneud Treth yn Ddigidol (MTD), o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Mae'r trothwy cofrestru TAW hwn yn eithrio'r Taliad Sylfaenol ac unrhyw gymorthdaliadau neu grantiau amaethyddol eraill, gan fod cymorthdaliadau tu allan i gwmpas TAW y DU.

Bydd angen i fusnesau sydd â throsiant trethadwy dros £85,000 yn y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 naill ai: creu eu ffurflen TAW yn ddigidol gan ddefnyddio meddalwedd pontio sy'n cysylltu â thaenlen excel neu defnyddio meddalwedd priodol neu cyfarwyddo cyfrifydd neu gynghorydd busnes i wneud hyn ar eu rhan.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar yr holl ffurflenni TAW sy'n dechrau ar ôl 1 Ebrill 2019, os yw'ch busnes yn fwy na'r trothwy o £85,000

Bydd Cyswllt Ffermio, trwy ei raglen hyfforddi TGCh yn darparu cyfres o weithdai TG ledled Cymru, i baratoi busnesau ar gyfer y newid o gadw cofnodion â llaw i ddigidol a pharatoi ar gyfer ffurflenni TAW ar-lein.

Bydd pob un o'r gweithdai dwy awr o hyd, gyda hyd at 20 yn mynychu pob un, yn dangos ystod o'r pecynnau meddalwedd sydd fwyaf addas ar gyfer busnesau diwydiannau'r tir.

Byddwch yn dysgu p'un a fyddech chi'n hyderus i ddefnyddio'r feddalwedd hon eich hun, neu a fyddech chi'n dymuno gofyn i gyfrifydd neu gynghorydd busnes wneud hynny ar eich rhan. Mae'n bosibl y byddai'r ffermwyr hynny sy'n cwblhau ffurflenni TAW gan ddefnyddio taenlenni Excel hefyd yn dymuno ystyried rhai o'r dewisiadau meddalwedd pontio, a bydd y gweithdai yn rhoi arddangosiad ymarferol er mwyn i chi benderfynu beth sydd ei angen ar eich busnes.

Am ragor o fanylion ynglŷn â rhaglen TGCh Cyswllt Ffermio, sydd wedi'i ariannu'n llawn, gan gynnwys opsiwn i dderbyn ymweliadau un i un ar y fferm a gweithdai ledled Cymru, bydd angen i chi gwblhau ffurflen 'datganiad o ddiddordeb' sydd ar gael ar y wefan: www.llyw.cymru/cyswlltffermio.

Am ragor o fanylion ynglŷn â'r ddeddfwriaeth newydd, ewch i [wefan GOV.UK](http://www.gov.uk)

**PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU**



**WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP**

Cyswllt Ffermio i gyflwyno negeseuon diogelwch fferm yn ymwneud â tractorau a pheiriannau i'r farchnad y gwanwyn hwn - ydych chi'n gwybod beth yw eich cyfrifoldebau cyfreithiol?

Ffermwyr, coedwigwyr, myfyrwyr, cyflogwyr, gweithwyr, aelodau'r teulu - os ydych chi'n dibynnu ar dractorau fferm, cerbydau pob tirwedd (ATV) a pheiriannau, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod pob un sy'n gyrru ac yn defnyddio'r peiriannau wedi derbyn hyfforddiant ac yn gymwys i wneud eu gwaith. Mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau bod pob cerbyd a pheiriant a ddefnyddir yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gyfreithlon!

Dyma'r neges bwysig y bydd Cyswllt Ffermio yn ei gyfleu i'r diwydiant yn ystod y gwanwyn mewn cyfres o arddangosiadau ymarferol byr mewn Sioe Deithiol lechyd a Diogelwch Fferm newydd a gynhelir drwy'r dydd ym Marchnad y Trallwng (29 Ebrill); Marchnad Caerfyrddin (3 Mai) a Marchnad Dolgellau (10 Mai).

Mae'r digwyddiadau yn rhan o ymgyrch barhaus a lansiwyd y llynedd gan Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru, cydweithrediad rhwng yr holl randdeiliaid amaethyddol allweddol yng Nghymru, sy'n gweithio gyda'i gilydd i leihau'r ystadegau torcalonnus o farwolaethau ac anafiadau ar ffermydd yng Nghymru bob blwyddyn.

TAITH MARCHNADOEDD IECHYD A DIOGELWCH

29/04/19 10:00 - 14:00	Marchnad Da Byw Y Trallwng, Y Trallwng, Powys SY21 8SR
03/05/19 10:00 - 14:00	Marchnad da byw Caerfyrddin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA33 5DR
10/05/19 10:00 - 14:00	Marchnad da byw Dolgellau, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1AB



Brian Rees



Lowri Rees-Roberts



Glyn Davies



Chris Hughes

Bydd y sioe deithiol hefyd yn rhoi cyfle i chi siarad gydag un o fentoriaid iechyd a diogelwch cymeradwy Cyswllt Ffermio, sy'n darparu hyd at 22.5 awr o arweiniad cyfrinachol wedi'i ariannu'n llawn ar y fferm.

Byddant hefyd yn cynnig cyngor a deunyddiau am ddim, gan gynnwys llyfryn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 'What a good farm looks like', sy'n trafod sut y gallwch wneud eich busnes diwydiannau'r tir yn le mwy diogel i weithio a sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.



Gall ffermwyr cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ymgeisio am ystod eang o gyrsiau hyfforddiant yn ymwneud ag amrywiaeth o agweddau o ddiogelwch fferm yn ystod y cyfnod ymgeisio sgiliau newydd sydd ar agor rhwng Dydd Llun 3 Mehefin a Dydd Gwener 28 Mehefin.

Am ragor o fanylion am yr holl gyrsiau hyfforddiant; rhestr o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy; opsiynau e-ddysgu ac i lawr lwytho'r deunyddiau diweddaraf yn ymwneud â diogelwch fferm, ewch i

www.llyw.cymru/cyswlltffermio.

Am gyngor cynhwysfawr ynglŷn ag iechyd a diogelwch ar y fferm, ewch i:

www.hse.gov.uk/agriculture neu www.yellowwellies.org

Amserlen Digwyddiadau

Rheoli Dermatitis Digidol Mewn Gwartheg	
03/04/19 10:30 - 14:30	White Horse, Owrtyn, Wrecsam LL13 0DT
Rhys Davies - 07985 379 880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk	

Mycoplasma Bovis - Hunangenedledig	
04/04/19 11:00 - 14:30	Fferm Wern, Bancyfelin, Sir Gâr SA33 5NE
Abby James - 07399 970 988 abigail.james@menterabusnes.co.uk	

Popeth am Bori a Phorfeydd!	
11/04/19 11:00 - 14:30	Fferm Moor, Hwlfordd, Sir Benfro SA62 3EE
Abby James - 07399 970 988 abigail.james@menterabusnes.co.uk	


Rheoli'r Oen sy'n Tyfu	
29/04/19 09:00 - 11:00	Marchnad Da Byw Y Trallwng, Y Trallwng, Powys SY21 8SR
30/04/19 14:00 - 16:00	Cae'r Ffynnon, Llanbedr, Gwynedd LL44 2HZ
01/05/19 14:00 - 16:00	Fferm Castellior, Porthaethwy, Sir Fôn LL59 5RR
02/05/19 10:30 - 13:00	Hendrephilip, Tregaron, Ceredigion SY25 6QB
02/05/19 17:30 - 19:30	College Farm, Trefeca, Aberhonddu LD3 0PW
03/05/19 11:00 - 13:00	Fferm Bryntail, Rhydyfelin, Pontypridd, Rhondda, CF37 5LJ
Canolfan Wasanaeth - 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk	

Canmlwyddiant brîdio planhigion yn IBERS	
01/05/19 11:00 - 13:00	IBERS, Plas Gogerdan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB
Elan Davies - 07985 379 890 elan.davies@menterabusnes.co.uk	

TAITH MARCHNADOEDD IECHYD A DIOGELWCH	
29/04/19 10:00 - 14:00	Marchnad Da Byw Y Trallwng, Y Trallwng, Powys SY21 8SR
03/05/19 10:00 - 14:00	Marchnad da byw Caerfyrddin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA33 5DR
10/05/19 10:00 - 14:00	Marchnad da byw Dolgellau, Dolgellau, Gwynedd, LL40 IAB

Cymorthfeydd (09:00 - 17:00) Apwyntiad awr		
Cymorthfa Gynllunio	03/04/19	Y Drenewydd
Cymorthfa Olyniaeth	03/04/19	Tregaron
Cymorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	11/04/19	Y Bont-faen
Cymorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	12/04/19	Hermon
Cymorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	18/04/19	Caerfyrddin
Cymorthfa Gynllunio	23/04/19	Aberteifi
Cymorthfa Olyniaeth	30/04/19	Y Trallwng
Cymorthfa Gynllunio	02/05/19	Llanfair-Ym- Muallt
Cymorthfa Olyniaeth	08/05/19	Wrecsam
Cymorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	09/05/19	Rhuthun
Cymorthfa Olyniaeth	14/05/19	Rhaeadr
Helen Lewis - 01970 631 425 helen.lewis@menterabusnes.co.uk		

Dechrau Ffermio	
04/06/19	Celtic Manor Resort, Casnewydd, De Cymru, NP18 1HQ
Arloesedd, ysbrydoliaeth a chyngor ymarferol ar gyfer entrepreneuriaid sy'n edrych i ddechrau busnes fferm eu hunain. Mae Dechrau Ffermio yn ddigwyddiad ar y cyd gyda Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer darpar entrepreneuriaid ffermio. Bydd y digwyddiad yn cynnwys cyngor ariannol a chyfreithiol ymarferol gan unigolion profesiynol o'r diwydiant yn ogystal ag amrywiaeth o fodelau mynediad tir a busnes i'w hystyried.	
Canolfan Wasanaeth - 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk	

Merched Mewn Amaeth 2019 - Blwyddyn Darganfod	
20/06/19	Lleoliadau ar draws Cymru gan offren yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth
 <p>Gwylwch allan am fwy o wybodaeth...</p>	
Canolfan Wasanaeth - 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk	

Mae'r holl wybodaeth yn
gywir adeg argraffu